

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

### Y BIL PLANT A THEULUOEDD: GWELLIANNAU MEWN PERTHYNAS Â PHRYNU NEU GEISIO PRYNU OF TYBACO ETC AR RAN PERSONAU O DAN 18 OED; A GWAHARDD GWERTHU CYNHYRCHION NICOTIN I BERSONAU O DAN 18 OED.

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Plant a Theuluoedd (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 4 Chwefror 2013. Gellir gweld y Bil yn:  
<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/childrenandfamilies.html>

#### Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg (DfE) i wneud newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio cymorth i blant a theuluoedd. Mae hanner cyntaf y Bil yn ceisio gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy ddiwygio'r systemau ar gyfer mabwysiadu, Plant sy'n Derbyn Gofal, cyfiawnder teuluol ac Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r ail hanner yn ceisio annog twf yn y sector gofal plant, rhannu absenoldeb riant a sicrhau bod gan blant yn Lloegr eiriolwyr cryf dros eu hawliau.
4. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â:
  - (a) Mabwysiadu - cyflawni diwygiadau er mwyn: lleihau oedi yn y system fabwysiadu; ehangu'r defnydd o 'Faethu ar gyfer Mabwysiadu'; gwella'r cymorth sydd ar gael i fabwysiadwyr a'r trefniadau ar gyfer recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr; a gwneud y Gofrestr Mabwysiadu a'r Ddeddf Plant, fel y'i cymhwysir yn Lloegr, yn gofrestr statudol.
  - (b) Diwygio'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr<sup>[1]</sup> i ymdrin ag oedi mewn achosion cyfraith gyhoeddus:
    - trwy weithredu terfyn amser o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal a goruchwyllo; lleihau'r defnydd gormodol o adroddiadau arbenigwyr; dileu dyblygu diangen; a sicrhau bod yr effaith ar y

<sup>[1]</sup> Adolygiad FJR o'r system cyfiawnder teuluol i Gymru a Lloegr a datganiad ysgrifenedig  
<http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/justice/?jsessionid=F5E2D1B1C006F79F4176E6D249D006D4?lang=cy>  
<http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/familyjusticereviewupdate/?lang=cy> ,

plentyn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch amserlennu, ac

- mewn cyfraith teulu breifat - drwy wneud yn ofynnol bod rhieni'n mynychu cyfarfod cyfryngu teuluol ac asesiad cyn gwneud cais i'r llys; anfon neges glir i rieni sydd wedi gwahanu y bydd llysoedd yn cymryd i ystyriaeth yr egwyddor y dylai'r ddau barhau i gymryd rhan weithredol ym mywydau eu plant pan fo hynny'n ddiogel ac yn gyson â lles y plentyn; a chyflwyno "gorchymyn trefniadau plentyn" newydd fel y gall y llysoedd wneud defnydd llawn o'u pwerau i gyfarwyddo rhieni i ymgymryd â gweithgareddau sy'n amcanu i'w helpu i wneud i'r trefniadau ar gyfer eu plant weithio; a symleiddio prosesau ysgariad ar gyfer y llysoedd.
- (c) Diwygio'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn Lloegr er mwyn: gwella'r gefnogaeth i bobl ifanc 16-25 oed; cynnig cyllideb bersonol i blant a theuluoedd, gwneud gwell cydweithio yn ofynnol rhwng gwasanaethau; gwybodaeth gliriach am y cymorth sydd ar gael; symleiddio prosesau a chynlluniau asesu.
- (d) Gofal Plant, gan gynnwys cynyddu'r hyblygrwydd i warchodwyr plant drwy gyflwyno asiantaethau gwarchodwyr plant.
- (e) Plant sy'n derbyn gofal: gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn Lloegr yn dynodi swyddog i weithredu fel y 'Pennaeth Ysgol Rhithwir' (VSH) ar gyfer y plant y mae'n gofalu amdanynt; egluro'r hawl i gael asesiad am gymorth i ofalwyr ifanc; a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno rheoliadau newydd gyda'r nod o godi safonau mewn cartrefi plant.
- (f) Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr - gwella pwerau'r Comisiynydd i hyrwyddo a diogelu hawliau plant a rhoi iddo fwy o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth y DU. Bydd y newidiadau yn berthnasol i rôl y Comisiynydd o hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant yn y gweinyddiaethau datganoledig, ond hynny yn unig mewn perthynas â materion nas datganolwyd.
- (g) Rhannu Absenoldeb Rhiant a Gweithio Hyblyg: cyflwyno system ar gyfer rhannu absenoldeb rhiant a rhannu tâl rhieni, yn ogystal â diwygio'r system sy'n rhoi'r hawl i unigolion ofyn am weithio hyblyg.
- (h) Rheoleiddio pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer adwerthu. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd pwerau a fydd yn ei alluogi i wneud rheoliadau, ar sail y DU gyfan, er mwyn (1) rheoleiddio pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer adwerthu; (2) rheoleiddio'r marciau ar gynhyrchion tybaco a'u hymddangosiad; a (3) creu troseddau cysylltiedig.

## **Darpariaethau yn y Bil y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer**

5. Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad i'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 31 Ionawr 2014 ac a fydd: (1) yn creu'r troseddau o brynu neu geisio prynu tybaco neu bapurau sigarét ar ran person sydd o dan 18 oed; (2) yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud rheoliadau sy'n gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed; a (3) yn cynnwys darpariaethau canlyniadol i'r gwaharddiad ar werthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed. Ar yr amod y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio i'r Cynnig hwn, bydd y diwygiadau yn gymwys i Gymru yn ogystal â Lloegr.

## **Prynu tybaco etc ar ran personau o dan 18 oed**

6. Dywedir bod i "tybaco" yr ystyr a roddir i "tobacco" yn adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Yn y Ddeddf Honno, diffinnir "tobacco" fel a ganlyn: *"the expression tobacco includes cigarettes, any product containing tobacco and intended for oral or nasal use and smoking mixtures intended as a substitute for tobacco, and the expression "cigarette" includes cut tobacco rolled up in paper, tobacco leaf, or other material in such form as to be capable of immediate use for smoking"*.
7. Effaith gyffredinol y gwelliant arfaethedig yw darparu fel a ganlyn:
  - (a) Os yw person, sy'n 18 oed neu'n hŷn, yn prynu, neu'n ceisio prynu, tybaco neu papurau sigarét ar ran unigolyn o dan 18 oed (prynu dirprwyol), mae'r person hwnnw'n cyflawni trosedd.
  - (b) Os cyhuddir person o gyflawni trosedd o'r fath, mae'n amddiffyniad os profir nad oedd gan y person hwnnw reswm i amau bod yr unigolyn dan sylw o dan 18 oed neu, mewn achos pan fo person wedi prynu neu wedi ceisio prynu papurau sigarét, nad oedd gan y person hwnnw reswm i amau bod yr unigolyn dan sylw yn bwriadu defnyddio'r papurau ar gyfer ysmegu.
  - (c) Yn dilyn collfarn ddiannod, mae person sy'n euog o drosedd o'r fath, yn agored i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol (sef £2,500 yn gyfredol).
  - (d) Rhaid i'r awdurdodau pwysau a mesurau yng Nghymru a Lloegr orfodi'r darpariaethau o fewn eu hardaloedd. Effaith hynny yn ymarferol yw y gwneir y gorfodi gan swyddogion safonau masnach.
8. Bydd cymhwyso darpariaethau adran 9 o Ddeddf Iechyd 2006 ac Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn galluogi swyddogion safonau masnach i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig i'r rhai y mae rheswm ganddynt i gredu eu bod wedi cyflawni'r drosedd o brynu dirprwyol. Yn unol â pharagraff (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Iechyd 2006, Gweinidogion Cymru (sef yr awdurdod cenedlaethol priodol), mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, a fydd yn rhagnodi

ffurf yr hysbysiad cosb benodedig, ac yn unol â pharagraff (5) o Atodlen 1, yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn rheoliadau a fydd yn gymwys i Gymru a Lloegr, a fydd yn pennu swm y gosb. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhaniad presennol rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn y pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â throseddau ysmegu o dan Ddeddf Iechyd 2006, pan ganiateir dyroddi hysbysiadau cosb benodedig.

9. Mae adran 11 o Ddeddf Iechyd 2006 ac Atodlen 2 i'r Deddf honno yn gymwys mewn perthynas â'r drosedd o brynu dirprwyol. Prif effeithiau ymgorffori'r darpariaethau hyn, mewn perthynas â'r drosedd o brynu dirprwyol yw: (1) ei gwneud yn drosedd rhwystro swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi yn fwriadol wrth iddo arfer ei swyddogaethau; (2) ei gwneud yn drosedd peidio â rhoi i swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi, heb esgus rhesymol, unrhyw wybodaeth neu gymorth y gofynnir amdanynt yn rhesymol gan y swyddog wrth iddo arfer ei swyddogaethau; (3) ei gwneud yn drosedd gwneud datganiad wrth swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi gan wybod bod y datganiad yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n ddi-hid a yw'r datganiad yn anwir neu'n gamarweiniol; a (4) ymgorffori'r darpariaethau yn Atodlen 2 sy'n ymwneud â phwerau mynediad swyddogion awdurdodedig awdurdod gorfodi.

### **Gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed**

10. Yn y gwelliant arfaethedig, diffinnir cynnyrch nicotin fel: "(a) unrhyw ddyfais y bwriedir iddi alluogi unigolyn i gymryd nicotin neu draddodi nicotin i mewn i'r corff dynol rywfodd arall; (b) eitem y bwriedir iddi ffurfio rhan o ddyfais o fewn paragraff (a); neu (c) sylwedd neu eitem a gyfansoddwyd o nicotin, neu sy'n cynnwys nicotin, ac a fwriedir ar gyfer ei gymryd neu'i chymryd gan bobl, neu ei draddodi neu'i thraddodi i mewn i'r corff dynol rywfodd arall. Mae sigaréts electronig, clytiau nicotin a gymiau nicotin i gyd yn bodloni'r diffiniad o gynnyrch nicotin.
11. Nid yw'r canlynol yn gynhyrchion nicotin at ddibenion yr adran benodol hon: tybaco; papurau sigarét; ac unrhyw ddyfais a fwriedir ar gyfer ei defnyddio gyda thybaco a losgir; ac y mae'r rhain wedi eu heithrio'n benodol o'r diffiniad o gynhyrchion nicotin.
12. Effaith gyffredinol y gwelliant arfaethedig yw darparu fel a ganlyn:
- a. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn rheoliadau, wahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed.
  - b. Mae person sy'n gwerthu cynhyrchion nicotin i berson sydd o dan 18 oed, yn groes i reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cyflawni trosedd.
  - c. Os cyhuddir person o gyflawni trosedd o'r fath, mae'n amddiffyniad os yw'r person hwnnw wedi cymryd pob rhagofal

rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.

- d. Yn dilyn collfarn ddiannod, mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol (sef £2,500 yn gyfredol).
- e. Caiff y rheoliadau hyn: (1) wneud darpariaeth yn gwahardd gwerthu'r holl gynhyrchion nicotin i bersonau sydd o dan 18 oed; (2) gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin penodedig i bersonau o dan 18 oed; neu (3) gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed, yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig. Ceir arfer y pwerau hyn, er enghraifft, er mwyn eithrio rhai llysiâu sy'n cynnwys nicotin naturiol, a chynhyrchion sy'n cynnwys nicotin ond a ystyrir yn feddyginiaethau, o'r categorïau o gynhyrchion nicotin na chaniateir eu gwerthu i bersonau o dan 18 oed.
- f. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau hefyd sy'n ei gwneud yn drosedd i berson brynu, neu geisio prynu, cynnyrch nicotin ar gyfer unigolyn sydd o dan 18 oed.
- g. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau a fyddai'n cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

### **Diwygiadau canlyniadol i'r gwaharddiad ar werthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed**

13 Effaith gyffredinol y gwelliant arfaethedig yw darparu fel a ganlyn:

- (a) Mae is-baragraffau (1) i (6) o'r gwelliant arfaethedig yn diwygio adrannau 12A i 12D o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae adrannau 12A i 12D o'r Ddeddf honno'n ymateb i achosion mynych o werthu tybaco i bersonau o dan 18 oed drwy gyfrwng gorchmynion mangre dan gyfyngiad a gorchmynion cyfyngu ar werthu. Yn dilyn collfarnu person am drosedd tybaco, mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i swyddogion gorfodi'r awdurdod lleol wneud cais i Lys Ynadon am orchymyn sy'n gwahardd mangre rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am gyfnod o hyd at un flwyddyn, neu wahardd unigolion penodol rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am hyd at un flwyddyn, os ceir eu bod wedi cyflawni o leiaf ddwy drosedd tybaco arall o fewn cyfnod o ddwy flynedd. Diffinnir trosedd tybaco yn adran 12 D, ac y mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys gwerthu tybaco i berson o dan 18 oed.
- (b) Mae'r gwelliant yn diwygio adrannau 12A to 12D drwy ganiatáu i orchmynion cyfyngu ar werthu a gorchmynion mangre dan gyfyngiad wahardd gwerthu cynhyrchion nicotin yn ogystal â

thybaco, ac yn ehangu cymhwysedd yr adrannau hynny drwy ganiatáu i droseddau nicotin gyfrif tuag at y nifer o droseddau y mae'n ofynnol eu cyflawni cyn y ceir gwneud cais am orchymyn cyfyngu ar werthu neu orchymyn mangre dan gyfyngiad. Diffinnir trosedd nicotin fel y drosedd o werthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed.

- (c) Mae is-baragraff 7 yn diwygio adran 5 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn Rhag Tybaco) 1991 (camau gorfodi gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr) drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ystyried, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis, i ba raddau y mae'n briodol iddynt weithredu rhaglen o gamau gorfodi yn eu hardal mewn perthynas â'r drosedd newydd o werthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed. Ystyrir bod angen y diwygiad hwn gan fod adran 5 eisoes yn gosod y ddyletswydd honno ar awdurdodau yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â chamau gorfodi o dan adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, sy'n ymwneud â gwerthu tybaco i rai dan oed.

- 14 Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â phrynu tybaco etc yn ddirprwyol; gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18; diwygiadau canlyniadol i'r gwaharddiad ar werthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18; a chreu'r troseddau cysylltiedig – pynciau sy'n dod o dan y penawdau iechyd a gwasanaethau iechyd a lles cymdeithasol yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

- 15 Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru mor fuan ag y bo modd.
- 16 Mae'r gwelliannau arfaethedig yn creu troseddau newydd ar wyneb y Bil ac yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol bwerau i wneud rheoliadau a fyddai'n creu troseddau newydd a fydd yn gymwys i Gymru a Lloegr. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae manteision eglur mewn dull o'r fath:
- (a) Byddai deddfwriaeth i reoleiddio prynu tybaco yn ddirprwyol yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr yr un pryd. Mae deddfwriaeth eisoes mewn grym yn yr Alban, a hefyd o dan ystyriaeth mewn Bil Gogledd Iwerddon sydd gerbron ar hyn o bryd. Drwy symud ymlaen yn y modd hwn gellir sicrhau na chaiff Cymru ei gadael ar ôl gweddill y DU yn y mater o greu trosedd o brynu tybaco yn ddirprwyol

- (b) Byddai rheoliadau sy'n gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr yr un pryd. Byddai hynny'n sicrhau cysondeb ar gyfer swyddogion gorfodi ac ar gyfer gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr cynhyrchion nicotin.
- (c) Ystyrir y byddai'r neges ynglŷn ag iechyd y cyhoedd yn cael ei chyfleu'n fwy eglur gan strategaeth gyson ledled Cymru a Lloegr, mewn perthynas â phrynu tybaco yn ddirprwyol a gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed.
- (d) Ystyrir y byddai manteision hefyd mewn strategaeth gyfunedig ledled Cymru a Lloegr ar gyfer hyfforddiant a chyhoedduswydd mewn perthynas â'r troseddau newydd.

### **Goblygiadau ariannol**

- 17 Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

**Mark Drakeford AC**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Ionawr 2014**